

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

rhwng

Gweinidogion Cymru

a

Phrif Arolygydd Arolygiaeth
Gofal Cymru

a

Phrif Weithredwr Arolygiaeth
Gofal Iechyd Cymru

Rhagfyr 2022

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copiâu o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Rhif ffôn: 0300 7900 126

Ebost: agc@llyw.cymru

Gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

Rhif ffôn: 0300 062 8163

Ebost: hiw@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk

MEMORANDWM CYD-DDEALLTWRIAETH RHWNG GWEINIDOGION CYMRU A PHRIF AROLYGYDD AROLYGIAETH GOFAL CYMRU A PHRIF WEITHREDWR AROLYGIAETH GOFAL IECHYD CYMRU

Cyflwyniad

1. Mae'r memorandwm hwn yn nodi sail cydberthynas Gweinidogion Cymru â Phrif Arolygydd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a Phrif Weithredwr Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ("y Prif Swyddogion") yng Ngrŵp y Prif Swyddog Gweithredu.

Swyddogaethau

2. Ceir crynodeb o brif swyddogaethau'r Prif Swyddogion, fel y'u hawdurdodwyd o dan adran 52 (9) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac a ddaw o ddeddfwriaeth bresennol, yn Atodiad A. Ac eithrio'r amgylchiadau mwyaf eithriadol, ni chaiff y swyddogaethau hyn eu tynnu yn ôl, a heb eu cyflwyno'n ffurfiol i Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Parhaol.
3. AGC sy'n gyfrifol am arolygu a rheoleiddio gofal plant, gofal cymdeithasol a gofal nad yw'n ymwneud ag iechyd i oedolion a phlant, yn ogystal â gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru. AGIC sy'n gyfrifol am arolygu gwasanaethau GIG Cymru (gan gynnwys gofal a ariennir gan GIG Cymru) ac arolygu a rheoleiddio gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru. Mae'r ddwy Arolygiaeth yn cyflawni eu swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru.

Gweinidogion Cymru

4. Mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod pwysigrwydd annibyniaeth a barn broffesiynol AGC ac AGIC. Mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol felly'n gyfrifol am oruchwylio'r gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio fel y maent yn ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y trefniadau cyfundrefnol ar gyfer AGC ac AGIC.
5. Mae Gweinidogion Cymru yn derbyn y dylai Prif Swyddogion perthnasol yr Arolygiaethau allu monitro, gwerthuso, adolygu, asesu ac adrodd ar ansawdd a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus, masnachol a gwirfoddol fel y maent yn berthnasol i'w swyddogaethau, heb bwysau rhagfarnus na chyfyngiadau amhriodol. Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn derbyn y dylid cyhoeddi datganiadau diduedd, gwrthrychol a gwybodus o'r ffeithiau am y gwasanaeth a gaiff ei arolygu a'i reoleiddio gan AGC ac AGIC er budd y cyhoedd, am fod hynny'n annatod i ddylunio gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion a chymunedau; mesur safonau yn effeithiol a chyson; gwella gwasanaethau; datblygu ymarferwyr; a gwybodaeth a all lywio prosesau llunio polisïau da.
6. Felly, nid yw cyrff fel AGC nac AGIC yn is-elfennau o'r Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n ymwneud yn fwy â'r gwasanaethau y maent yn adrodd arnynt ac yn rhoi sylw iddynt, nac yn rhan annatod ohono. Maent wedi'u gwahanu'n fwriadol o'r Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Er mai'r Gyfarwyddiaeth Cymunedau a Threchu Tlodi sy'n gyfrifol am bolisïau gofal

plant, mae egwyddorion y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn gymwys yn yr un ffordd mewn perthynas â'r gwasanaethau hynny, gan gydnabod annibyniaeth weithredol y swyddogaethau arolygol a rheoleiddiol.

Cyfrifoldebau gweithredol

7. Cyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp y Prif Swyddog Gweithredu (y "Cyfarwyddwr Cyffredinol") sy'n gyfrifol am gefnogi Prif Arolygydd AGC a Phrif Weithredwr AGIC mewn perthynas â'r canlynol:
 - sicrhau bod y gofynion o ran safonau uchel o farn broffesiynol, a'r annibyniaeth sydd ei hangen i lunio barn o'r fath a'i thrafod yn gyhoeddus, (yn arbennig Pwyllgorau'r Senedd), yn cael eu hadlewyrchu mewn disgrifiadau swydd ac arfer gweinyddol ehangach;
 - eu galluogi i lunio eu rhaglenni gwaith eu hunain yn seiliedig ar eu priod fframweithiau statudol a pholisi a gwaith archwilwyr, rheoleiddwyr ac arolygiaethau nad yw'r protocol hwn yn eu cynnwys; ymateb yn briodol i bryderon nas rhagwelwyd neu bryderon sy'n dod i'r amlwg sy'n ymwneud â methiannau gwasanaeth yn ystod y flwyddyn; adrodd o dan amodau eu rheolaeth olygyddol eu hunain; ac yn yr un modd ddarparu datganiadau cysylltiedig i'r cyfryngau; a
 - sicrhau hawliau mynediad uniongyrchol ac annibynnol i Weinidogion Cymru, a darparu fframwaith o gymorth datblygiadol ehangach y gallant weithredu oddi mewn iddo o dan eu cyfrifoldebau beunyddiol eu hunain, gan flaenoriaethu gweithgarwch fel y bo'n briodol.
8. Bydd y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn dyrannu'r adnoddau sydd ar gael iddo at bob Prif Swyddog yn ffurfiol bob blwyddyn er mwyn ei helpu i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol a'i raglen waith gyffredinol.
9. Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol hefyd yn gyfrifol am reoli perfformiad personol y Prif Arolygydd a'r Prif Weithredwr, yn ogystal â'u swyddogaethau o safbwynt strategol. Er bod angen i'r Prif Swyddogion weithredu ar gyfarwyddiadau a cheisiadau rhesymol y Cyfarwyddwr Cyffredinol a/neu Weinidogion Cymru, nid yw'r cydberthnasau yn gyfystyr â gorchymyn na rheolaeth barhaus ac uniongyrchol.
10. Yn hytrach, mae gan y Prif Swyddogion gyfrifoldebau wedi'u dirprwyo ac maent yn atebol i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a Gweinidogion Cymru i'w cyflawni o dan amodau llywodraethu tryloyw addas. Yn eu tro, bydd gofyn i'r Prif Swyddogion gyfrannu at y ffordd y caiff y Grŵp ei weithredu a'i ddatblygu'n gorfforaethol; ymrwmo i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru i'r graddau y mae eu swyddogaethau'n gymwys; cyfrannu at y gwaith o fodloni gofynion ac egwyddorion prif ffrwd; a rhannu adnoddau at y diben hwnnw lle y mae'n bosibl gwneud hynny heb beryglu eu gallu i gyflawni eu blaenoriaethau penodedig a'u cyfrifoldebau statudol.

11. Mae'r Prif Swyddogion yn gyfrifol am y canlynol yn benodol:

- gweithredu'n briodol ac yn gyfreithlon wrth gyflawni rolau a chyfrifoldebau statudol - gan gynnwys ystyried camau gorfodi sifil a/neu droseddol lle nad yw darparwyr gwasanaethau yn cyflawni eu rhwymedigaethau;
- unrhyw achosion o fethu â chyflawni rolau a chyfrifoldebau statudol neu fethu â gweithredu lle y nodwyd bod eu gallu i gyflawni rolau a chyfrifoldebau o'r fath yn risg;
- pennu rhaglenni gwaith yr arolygiaethau (ar ôl ymgynghori) a chyflawni eu rhaglenni gwaith a'u hamcanion gweithredol gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael; a
- cydymffurfio â holl systemau ariannol Llywodraeth Cymru a'r gofynion llywodraethu cysylltiedig, gan fod yn atebol i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol fel Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol.

Cymhwysio a Goblygiadau

12. Y Prif Swyddogion sy'n gyfrifol am bennu sut y dylid cyflawni eu rhwymedigaethau statudol, a sut i ddefnyddio eu timau o staff at y diben hwnnw, gan sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yng nghyd-destun briffiadau, cyfarfodydd ffurfiol a mynediad uniongyrchol drwy gydol y flwyddyn fel y bo'n briodol.

13. O ganlyniad, nid yw Gweinidogion Cymru na'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn gwneud penderfyniadau gweithredol ymarferol nac yn mynegi barn broffesiynol mewn perthynas ag achosion na lleoliadau penodol; unrhyw fater sy'n ymwneud â staffio (heblaw fel y nodir ym mharagraff 14 isod); nac unrhyw benderfyniadau manwl am y ffordd orau o gyflawni blaenoriaethau ac amcanion yn ystod y flwyddyn. Mae gan bob Prif Swyddog gyfrifoldeb gweithredol am yr holl faterion hynny.

14. O ran delio â chwynion, rheoli twyll, rheoli asedau gwybodaeth, rhaid i'r systemau a'r rheolaethau a gaiff eu gweithredu gan yr Arolygiaethau gydymffurfio â gofynion Llywodraeth Cymru a'r gwasanaeth sifil: rhaid gwneud hyn yn glir i'r staff a'r cleientiaid. Rhaid i'r broses recriwtio gydymffurfio â chod y Gwasanaeth Sifil.

Adolygiad

15. Ar gais y Prif Swyddogion, caiff y memorandwm hwn ei adolygu'n rheolaidd gyda'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a chaiff unrhyw argymhellion ar gyfer newid eu cyflwyno i Weinidogion Cymru i'w hystyried.

Adolygwyd: Rhagfyr 2022

Atodiad A

Crynodeb o'r ddeddfwriaeth berthnasol

Nod y testun canlynol yw crynhoi prif bwerau deddfwriaethol AGC ac AGIC. Ni fwriedir iddo fod yn gynhwysfawr ond yn hytrach nodi'r sail ddeddfwriaethol y maent yn gweithredu yn unol â hi yn fras. Mae'r cyfeiriadau at ddeddfwriaeth yn cynnwys deddfwriaeth fel y'i diwygiwyd. Mae'n bosibl y bydd AGC ac AGIC yn dibynnu ar ddarpariaethau deddfwriaethol ychwanegol o bryd i'w gilydd.

AGC

Mae AGC yn cyflawni swyddogaethau rheoleiddio ac arolygu o dan **Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016** ar gyfer:

- gwasanaethau cartrefi gofal
- gwasanaethau llety diogel
- gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd
- gwasanaethau mabwysiadu
- gwasanaethau maethu
- gwasanaethau lleoli oedolion
- gwasanaethau eirioli
- gwasanaethau cymorth cartref

O dan ran 2 o **Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010**, mae AGC hefyd yn rheoleiddio ac yn arolygu'r canlynol:

- Gwarchodwyr plant
- Gofal Dydd (gan gynnwys Chwarae) i blant dan 12 oed

Mae gan AGC bwerau hefyd i arolygu ysgolion annibynnol, gan ystyried lles y plant sydd mewn ysgolion o'r fath (rhan 12 o **Ddeddf Plant 1989**). Gall hefyd ystyried p'un a ddylid cyflwyno hawliidiad datgymhwyso rhag gweithredu neu ymwneud â chartrefi plant o dan ran 8 o'r Ddeddf.

Mae AGC yn adolygu'r ffordd y caiff adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru eu gweithredu. Mae Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn gosod darpariaethau yn adran 149 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i AGC adolygu'r ffordd y caiff swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol eu cyflawni.

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

AGIC yw arolygiaeth a rheoleidiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru. Mae **Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003** yn sail i AGIC adolygu ac ymchwilio i'r gofal iechyd a ddarperir gan ac ar ran cyrff GIG Cymru. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn rhoi'r pŵer i AGIC fynd i safleoedd y GIG a'u harolygu, a gofyn am wybodaeth a dogfennaeth gan gyrff y GIG.

Mewn perthynas ag Iechyd Meddwl, mae AGIC yn monitro cydymffurfiaeth â **Deddf Iechyd Meddwl 1983** ac yn cyflawni swyddogaethau blaenorol Comisiwn y Ddeddf Iechyd Meddwl yn achos Cymru. Mae hefyd yn monitro'r gydymffurfiaeth â **Deddf Galluedd Meddyliol 2005** a'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid a gyflwynwyd o dan y Ddeddf honno.

Disgwylir i'r system Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid gael ei disodli gan y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid a gyflwynwyd yn Neddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019.

Mae AGIC yn ystyried cydymffurfiaeth â **Rheoliadau Cyffuriau a Reolir (Goruchwylio Rheolaeth a Defnydd) (Cymru) 2008** lle y bo'n gymwys, sy'n cynnwys y mesurau ar gyfer rheoli a defnyddio cyffuriau a reolir yn ddiogel yng Nghymru. Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i AGIC gyhoeddi rhestr o Swyddogion Atebol Cyffuriau a Reolir sy'n gwasanaethu yng Nghymru.

Mae AGIC yn gyfrifol am fonitro'r gydymffurfiaeth â **Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017**. Nod y Rheoliadau hyn yw diogelu cleifion rhag y peryglon sy'n ymwneud ag ymbelydredd Ïoneiddio.

Mae AGIC hefyd yn cyflawni swyddogaethau rheoleiddio ac arolygu o dan ran 2 o Deddf Safonau Gofal 2000 mewn perthynas â gofal iechyd annibynnol yng Nghymru. Mae **Deddf Safonau Gofal 2000** yn cyflwyno cyfundrefn cofrestru ac arolygu ar gyfer y gwasanaethau canlynol:

- Ysbytai annibynnol
- Clinigau annibynnol
- Asiantaethau meddygol annibynnol
- Practisau Deintyddol Preifat